

MYFYRDOD AR Y PABI GWYN

Mae'r pabi gwyn yn cynrychioli 3 pheth.

Yn gyntaf, mae'n ffordd o gofio holl ddioddefwyr rhyfel – ddoe a heddiw. Mae hynny'n cynnwys pobl o bob cenedl, a phobl gyffredin a sifiliaid yn ogystal ag aelodau o'r llu arfog. Ond nid dim ond y bobl a fu farw sy'n cael eu cofio, mae hefyd yn cynrychioli pobl a niweidiwyd yn gorfforol ac yn feddyliol a'r miliynau sy'n ddigartref ac yn ffoaduriaid barddoniaeth oherwydd rhyfel, ynghyd â'r holl deuluoedd a'r cymunedau a rwygwyd ac a chwalwyd gan ryfel.

Yn ail, mae'n ffordd o ddangos ymrwymiad i weithio dros heddwch. Y ffordd orau o goffáu dioddefwyr ryfeloedd a fu yw gweithio i atal rhyfel nawr ac i'r dyfodol. Mae trais yn ddieithriad yn esgor ar fwy o drais, ac mae'n rhaid bod ffyrdd gwell o ddatrys anghydfod na defnyddio dulliau trais. Rhaid mynd i'r afael ag achosion sylfaenol rhyfel fel tlodi, anghydraddoldeb a chystadleuaeth am adnoddau, ac mae'n rhaid sicrhau'r newidiadau cymdeithasol fydd yn caniatáu i bobl fyw gyda'i gilydd gyda pharch ac mewn hedd.

Yn drydydd mae'n ffordd o herio unrhyw ymgais i ddathlu rhyfel neu i guddio'i wir erchyllter. Mae'n rhaid i ni ddysgu gwersi rhyfel. Hwn oedd y rhyfel i roi diwedd ar bob rhyfel, a'r neges ar ddiwedd y rhyfel oedd 'byth eto'. Ond, o fewn 20 mlynedd, cychwynnodd rhyfel arall, ac ar ei ddiwedd roedd mwy na 60 miliwn yn farw. Y rhyfel mwyaf a'r mwyaf difrifol yn hanes dynoliaeth. O 1945 hyd at heddiw gwelwyd dros 60 o ryfeloedd a brwydrau ar draws y byd gyda degau o filiynau o ddioddefwyr o ganlyniad iddynt. Mae rhyfel yn lladd, yn difa ac yn dinistrio. Mae'n gadael anialwch ar ei ôl.

Mae yn symbol o obaith a bywyd. Mae'n cofio pawb sydd wedi dioddef ac sy'n dal i ddioddef. Mae'n sefyll dros obaith, heddwch a bywyd i bawb. Mae'n datgan bod rhyfel yn rhywbeth i ymwrthod ag ef os am weld byd tecach a mwy cyfiawn, ble mae pawb yn cael y cyfle i fwynhau bywyd cyflawn.